TGAU

# CBAC TGAU
# Hanes

Cymeradwywyd gan Cymwysterau Cymru

## Canllawiau Addysgu: Uned 3 Opsiwn 3.4

Addysgu o 2026
Dyfarnu o 2028

Fersiwn 2 - Chwefror 2025



Nid yw'r cymhwyster hwn a reoleiddir gan Cymwysterau Cymru ar gael i ganolfannau Lloegr.

Yn arbennig i Gymru.
Yn barod i'r byd.

Hoffai CBAC ddiolch i fyfyrwyr ac athrawon Ysgol Uwchradd Fitzalan, Caerdydd ac Ysgol Uwchradd Llanwern, Casnewydd am gymryd rhan yn y gwaith o greu'r cloriau hyn.

## Cynnwys

Cyflwyniad........1
Nodau'r Canllawiau Addysgu........1
Ffyrdd ychwanegol y gall CBAC gynnig cymorth:........1
Strwythur y cymhwyster........2
Asesu........3
Crynodeb o'r Asesu........3
Uned 3 Amcanion asesu a phwysoliadau........3
Trosolwg o Uned 3: Opsiwn 3.4........4
Cynllun Dysgu ar gyfer Opsiwn 3.4 Modern Cynnar: Yr Ymerodraeth Mughal, tua 1526-tua 1707........5
Profiadau Dysgu........26
Cyfleoedd i ymgorffori elfennau o'r Cwricwlwm i Gymru........27
Opsiwn 3.4 Modern Cynnar: Ymerodraeth Mughal, tua 1526-tua 1707........27
Rhestr Termau ar gyfer Opsiwn 3.4 Ymerodraeth Mughal tua 1526 - tua 1707........34

© WJEC CBAC Ltd. 2025

# CRYNODEB O'R ADDASIADAU

| Fersiwn | Disgrifiad | Rhif y dudalen |
|---|---|---|
| 2 | Addaswyd i, dyfarnu am y tro cyntaf yn Haf 2028 | 1 |

# Cyflwyniad

Mae CBAC TGAU Hanes wedi'i gymeradwyo gan Cymwysterau Cymru ac mae ar gael i bob canolfan yng Nghymru. Bydd yn cael ei ddyfarnu am y tro cyntaf yn Haf 2028, gan ddefnyddio graddau A* i G.

## Nodau'r Canllawiau Addysgu

Prif nod y Canllawiau Addysgu yw cefnogi athrawon wrth iddynt gyflwyno manyleb newydd CBAC TGAU Hanes a chynnig arweiniad ar ofynion y cymhwyster a'r broses asesu. **Ni fwriedir i'r Canllawiau Addysgu fod yn ddogfen gynhwysfawr i gyfeirio ati** ond yn hytrach i gynnig cefnogaeth i athrawon proffesiynol wrth ddatblygu cyrsiau ysgogol a chyffrous sydd wedi'u teilwra i anghenion a sgiliau'r dysgwyr.Mae'r canllawiau'n cynnig gweithgareddau posibl yn yr ystafell ddosbarth a chysylltau i adnoddau digidol defnyddiol (gan gynnwys ein deunyddiau digidol ein hunain, sydd ar gael yn rhad ac am ddim, a rhai o ffynonellau allanol) i roi syniadau ar gyfer gwersi diddorol ac atyniadol.

## Ffyrdd ychwanegol y gall CBAC gynnig cymorth:

- deunyddiau asesu enghreifftiol a chynlluniau marcio
- digwyddiadau dysgu proffesiynol
- adroddiadau arholwyr ar bob uned
- y gallu i gysylltu'n uniongyrchol â'r swyddog pwnc
- adnoddau ar-lein am ddim
- Dadansoddi Canlyniadau Arholiadau
- Adolygu Arholiadau Ar-lein.

© WJEC CBAC Ltd. 2025

## Strwythur y cymhwyster

Mae CBAC TGAU Hanes yn cynnwys pedair  uned.Rhaid i'r cyfuniad o opsiynau a ddewiswyd ar gyfer Unedau 1, 2 a 3 gynnwys un uned oesoedd canol, un uned fodern gynnar ac un uned fodern.

Yn Uned 4, gall canolfannau ddewis ailadrodd cyfnod amser a astudiwyd yn flaenorol yn Unedau 1, 2 neu 3. **Fodd bynnag, ni ddylai'r testunau a ddewisir ar gyfer eu hastudio yn Uned 4 ailadrodd na gorgyffwrdd â chynnwys unrhyw un o'r unedau eraill a ddewisir.**

Cymhwyster unedol yw hwn ac nid yw'n cynnwys haenau. Nid oes hierarchaeth o ran trefn dysgu'r unedau.

| | **Teitl yr uned** | **Math o Asesiad** | **Pwysoli** |
|---|---|---|---|
| **Uned 1** | Astudiaeth fanwl o hanes Cymru | Arholiad ysgrifenedig | 30% |
| **Uned 2** | Astudiaeth fanwl o hanes Ewrop a/neu'r Byd | Asesiad Di-arholiad | 20% |
| **Uned 3** | Astudiaeth o gyfnod yn hanes y byd | Arholiad ysgrifenedig | 30% |
| **Uned 4** | Cymdeithas sy'n newid | Asesiad Di-arholiad | 20% |

© WJEC CBAC Ltd. 2025

# Asesu

## Crynodeb o'r Asesu

| **Uned 3: Astudiaeth o gyfnod yn hanes y byd**<br>***Arholiad ysgrifenedig*: 1 awr**<br>**30% o'r cymhwyster**<br><br>**60 marc** |
|---|
| Bydd dysgwyr yn astudio un o'r chwe thestun hanesyddol canlynol i gynnal astudiaeth eang o gyfnod hanesyddol estynedig.<br><br>**Yr Oesoedd Canol**<br>**3.1** Y Llychlynwyr, tua 750 - tua 1066<br>**3.2** Y Croesgadau, tua 1095 - tua 1291<br>**Modern Cynnar**<br>**3.3** Ymerodraeth Songhai, tua 1464-tua 1591<br>**3.4** Yr Ymerodraeth Mughal, tua 1526-tua 1707<br>**Modern**<br>**3.5** Rwsia a'r Undeb Sofietaidd tua 1861 – tua 1953<br>**3.6** Newidiadau yng nghymdeithas yr Unol Daleithiau tua 1880 – tua 1980<br><br>Bydd cwestiynau gorfodol yn asesu pob opsiwn. Bydd y rhain yn canolbwyntio ar wybodaeth hanesyddol am y testun, cysyniadau hanesyddol yr ail drefn a dadansoddi a gwerthuso ffynonellau a dehongliadau hanesyddol. |

## Uned 3 Amcanion asesu a phwysoliadau

| | | |
|---|---|---|
| AA1 | Dangos gwybodaeth a dealltwriaeth o nodweddion y cyfnodau a astudiwyd | 10% |
| AA2 | Cymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth at gysyniadau hanesyddol megis achos a chanlyniad, parhad a newid, tebygrwydd a gwahaniaeth, ac arwyddocâd | 10% |
| AA3 | Dadansoddi, gwerthuso neu wneud penderfyniadau ar ddeunydd ffynhonnell, dehongliadau hanesyddol a dadleuon hanesyddol, gan syntheseiddio'r llinynnau hyn lle bo hynny'n briodol | 10% |

© WJEC CBAC Ltd. 2025

## Trosolwg o Uned 3: Opsiwn 3.4

**Astudiaeth o gyfnod yn hanes y byd**
(30% o'r cymhwyster)

Diben Uned 3 yw rhoi cipolwg ar gyfnod hanesyddol estynedig gan alluogi dysgwyr i archwilio cysyniadau allweddol. Nod yr opsiwn hwn yw meithrin dealltwriaeth dysgwyr o'r modd y newidiodd ac y datblygodd Ymerodraeth Mughal yn y cyfnod rhwng tua 1526 a thua 1707.

| **Cyfnod amser** | **Opsiwn 3.4** | |
|---|---|---|
| Modern Cynnar | 3.4 | Yr Ymerodraeth Mughal, tua 1526-tua 1707 |
| | 3.4.1 | O Babur i Humayan, tua 1526-1556 |
| | 3.4.2 | Akbar ac ehangu'r Ymerodraeth Mughal, 1556-1605 |
| | 3.4.3 | Ehangu a sefydlogrwydd dan reolaeth Jahangir, 1605-1627 |
| | 3.4.4 | Rheolaeth Shah Jahan, 1627-1657 |
| | 3.4.5 | Aurangzeb a diwedd yr Ymerodraeth Mughal, 1657-1707 |

© WJEC CBAC Ltd. 2025

## Cynllun Dysgu ar gyfer Opsiwn 3.4 Modern Cynnar: Yr Ymerodraeth Mughal, tua 1526-tua 1707

Darperir y cynllun dysgu hwn fel enghraifft ddarluniadol. Ei nod yw rhoi strwythur ac ysbrydoliaeth ond gellir ei addasu er mwyn diwallu anghenion unigryw, dewisiadau a dynameg dosbarthiadau unigol. Caiff athrawon eu hannog i addasu elfennau fel sy'n ofynnol i gyd-fynd â galluoedd a nodau dysgu eu myfyrwyr.

**Ar gyfer pob adran o gynnwys yn yr uned hon, mae CBAC hefyd yn darparu adnoddau dysgu cyfunol a threfnwyr gwybodaeth. Gellir dod o hyd i'r rhain yma: https://adnoddau.cbac.co.uk/**

| 3.4 Cefndir: tarddiad yr Ymerodraeth Mughal<br>(Mae pob opsiwn yn dechrau gydag adran gefndirol. Bwriad yr adrannau hyn yw rhoi cyd-destun angenrheidiol i ddysgwyr er mwyn iddynt gael mynediad at y testun hanesyddol. Ni fydd dysgwyr yn cael eu hasesu'n uniongyrchol ar gynnwys yr adrannau cefndirol). | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Dylai dysgwyr fod yn ymwybodol o: | Gwybodaeth | Gweithgareddau a Chanlyniadau | Adnoddau | Amser a awgrymir (oriau) |
| • tarddiad y Mughal yng nghanolbarth Asia a'r rhesymau dros eu lledaeniad i Dde Asia. | Lleoliad canolbarth Asia.<br><br>Tarddiad y Mughaliaid gan gynnwys Timur a Genghis Khan.<br><br>Y berthynas rhwng y Mughaliaid a'u cymdogion, gan arwain at ehangiad. | **Gweithgareddau:**<br>• Trafodaeth – Beth mae dysgwyr eisoes yn ei wybod am y Mughaliaid?<br>• Gwaith map – Edrychwch ar fap o Ganolbarth a De Asia. Tynnwch sylw at y tiriogaethau allweddol y datblygodd y Mughaliaid iddynt.<br>• Coeden deulu – Ymchwiliwch i darddiad y Mughaliaid.<br>• Crynhowch y prif resymau dros ehangiad y Mughaliaid.<br><br>**Canlyniad:**<br>Gall dysgwyr ddangos eu bod yn deall tarddiad y Mughaliaid, lle oedd Ymerodraeth Mughal a'i datblygiad daearyddol. | **Fideo(s):**<br>Kyrgyzstan: Where did the Mughals of India come from?<br><br>The Rise and Fall of the Mughal Empire<br><br>The History of the Mughal Empire 1526CE-1857CE<br><br>**Map(iau):**<br>Development of the Mughal Empire - Britannica<br><br>India in 1525 | 1 awr |

© WJEC CBAC Ltd. 2025

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | **Gweithgaredd uwch:**<br>Ymchwiliwch i hanes y Mughaliaid a lluniwch gyflwyniad yn amlinellu eu perthnasoedd â'u cymdogion a'u rhesymau dros ehangu.<br><br>**Canlyniad uwch:**<br>Gall dysgwyr lunio casgliadau soffistigedig ynghylch pam y tyfodd Ymerodraeth Mughal. | Empire at its greatest extent c.1700<br><br>**Delwedd(au):**<br>Humayun's Genealogical Order<br><br>**Gwefan(nau):**<br>How the Mughal Empire Began - BBC Bitesize | |

© WJEC CBAC Ltd. 2025

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| • daearyddiaeth, crefyddau a diwylliannau'r rhanbarth a ddaeth i gael ei hadnabod fel "Hindustan" (isgyfandir India). | Ystyr y term Hindustan.<br><br>Nodweddion daearyddol Hindustan.<br><br>Crefyddau yn Hindustan gan gynnwys Hindŵaeth, Bwdhaeth, Islam, Sikhiaeth a Christnogaeth. | **Gweithgareddau:**<br>• Gwaith map – nodwch Hindustan a labelwch leoliadau allweddol fel yr Himalayas a Llwyfandir Deccan. Nodwch nodweddion daearyddol allweddol y lleoliadau amrywiol.<br>• Cyfatebwch brif nodweddion pob crefydd i'r enw cywir.<br>• Lluniwch gyflwyniad yn amlinellu diwylliant Hindustan gan gynnwys ieithoedd, celf, pensaernïaeth, crefyddau a dillad.<br><br>**Canlyniad:**<br>Bydd dysgwyr yn meithrin dealltwriaeth o'r term Hindustan ac yn gallu nodi ei brif nodweddion.<br><br>**Gweithgaredd uwch:**<br>Lluniwch siart yn dangos sut yr oedd amrywiaeth yn yr Hindustan yn fanteisiol ac yn anfanteisiol i ehangiad y Mughal.<br><br>**Canlyniad uwch:**<br>Bydd dysgwyr yn meithrin dealltwriaeth o fanteision ac anfanteision yr amrywiaeth o fewn Hindustan. | **Llyfr(au):**<br>OCR GCSE History SHP: The Mughal Empire 1526 - 1707<br><br>**Map(iau):**<br>Map of Hindustan - Britannica<br><br>**Erthygl(au):**<br>Hindustan | 1 awr |

© WJEC CBAC Ltd. 2025

| 3.4.1 O Babur i Humayan, tua 1526-1556 | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Dylai dysgwyr ddeall: | Gwybodaeth | Gweithgareddau a Chanlyniadau | Adnoddau | Amser a awgrymir (oriau) |
| • arwyddocâd Babur, gan gynnwys:<br>◦ ei ymgyrchoedd milwrol, gan gynnwys Brwydr Gyntaf Panipat, a sefydlu'r Ymerodraeth Mughal<br>◦ ei gyfraniad at ddatblygiad yr Ymerodraeth Mughal a'i diwylliant, a'r heriau oedd yn wynebu'r Ymerodraeth yn dilyn ei farwolaeth. | Pwysigrwydd Brwydr Gyntaf Panipat wrth sefydlu Ymerodraeth Mughal.<br><br>Strategaeth filwrol ac arloesedd Babur.<br><br>Cyfraniad Babur at ddiwylliant y Mughal gan gynnwys barddoniaeth, Gardd Mughal a hyrwyddo celf a phensaernïaeth. | **Gweithgareddau:**<br>• Trafodaeth -– arddangoswch ddelwedd o Babur a gofyn i'r dysgwyr lunio casgliadau amdano.<br>• Coeden deulu – cyflwynwch Babur fel un o ddisgynyddion Timur a Genghis Khan. Ystyriwch bwysigrwydd ei dreftadaeth.<br>• Ychwanegwch y digwyddiadau allweddol o fywyd Babur o'i enedigaeth i'w farwolaeth i linell amser.<br>• Gwaith map – dylai'r dysgwyr edrych ar fap o Frwydr Gyntaf Panipat a labelu sut yr oedd strategaeth Babur yn gweithio.<br>• Gwaith ffynhonnell – edrychwch ar ddarnau o hunangofiant Babur gan ganolbwyntio ar ei dactegau milwrol.<br>• Ysgrifennwch deyrnged i fywyd Babur gan amlinellu ei drafferthion cynnar yng Nghanolbarth Asia, colli Samarkand, ei benderfyniad i ymosod ar India a'r prif gyfraniadau i'r Ymerodraeth Mughal.<br><br>**Canlyniad:**<br>Bydd dysgwyr yn meithrin gwybodaeth a dealltwriaeth o ehangiad cynnar yr | **Llyfr(au):**<br>*Baburnama: A memoir Zahiru'din Muhammad Babur Padshah Ghazi*, Rupa Publications India<br><br>*OCR GCSE History SHP: The Mughal Empire 1526 - 1707*<br><br>A *Short History of the* Mughal Empire, M. Fisher, Bloomsbury Academic, 2018<br><br>**Erthygl(au):**<br>The Memoirs of Babur<br><br>The First Battle of Panipat<br><br>First Battle of Panipat: History, Result, Causes, Effects<br><br>**Fideo(s):**<br>Review: Memoirs of Babur by Zahir-ud-din Muhammad Babur | 2 awr |

© WJEC CBAC Ltd. 2025

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | ymerodraeth ac yn dadansoddi pwysigrwydd Babur.<br><br>**Gweithgaredd uwch:**<br>• Ysgrifennu – pam oedd llwyddiant Babur ym Mrwydr Panipat yn arwyddocaol?<br>• Ysgrifennu – Beth oedd yr heriau arwyddocaol a oedd yn wynebu Ymerodraeth Mughal ar ôl marwolaeth Babur?<br><br>**Canlyniad uwch:**<br>Bydd dysgwyr yn gwerthuso arwyddocâd Brwydr Panipat a'r heriau pellach a oedd yn wynebu arweinwyr y Mughal yn y dyfodol. | Babur, the Founder of the Mughal Empire<br><br>**Delwedd(au):**<br>Babur meeting the Sultan Ali Mirza near Samarkand<br><br>Map of the First Battle of Panipat with information | |
| • rheol gyntaf Humayun, gan gynnwys:<br>  • yr heriau a wynebodd wrth reoli'r Ymerodraeth<br>  • diwylliant, credoau a threfniadaeth yr Ymerodraeth gynnar. | Y problemau sy'n gysylltiedig â rheoli ymerodraeth fawr.<br><br>Amrywiaeth yr ymerodraeth.<br><br>Trefniadaeth Humayun o'r ymerodraeth. | **Gweithgareddau:**<br>• Gwaith ffynhonnell – edrychwch ar bortreadau o Humayun ac ystyriwch sut y caiff ei gynrychioli.<br>• Gwaith map – edrychwch ar fap o deyrnasiad cynnar Humayun a nodwch y rhanbarthau yr oedd yn eu rheoli a'r bygythiadau yr oedd yn eu hwynebu.<br>• Trafodaeth – Pa heriau oedd Humayun yn eu hwynebu ar ddechrau ei deyrnasiad?<br>• Ysgrifennu creadigol – ysgrifennwch ran o ddyddiadur ar gyfer Humayun | **Llyfr(au):**<br>OCR GCSE History SHP: The Mughal Empire 1526 - 1707<br><br>A *Short History of the* Mughal Empire, M. Fisher, Bloomsbury Academic, 2018<br><br>**Delwedd(au):**<br><br>Portrait of Humayun | 2 awr |

© WJEC CBAC Ltd. 2025

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | gan amlinellu ei heriau a sut y bydd yn trefnu'r ymerodraeth i'w goresgyn.<br><br>**Canlyniad:**<br>Bydd dysgwyr yn meithrin gwybodaeth a dealltwriaeth o'r problemau a wynebwyd gan Hamayun a'r ffyrdd y ceisiodd eu goresgyn.<br><br>**Canlyniad uwch:**<br>Bydd dysgwyr yn nodi pa broblemau oedd fwyaf arwyddocaol yn cynnal Ymerodraeth Mughal.<br><br>**Gweithgaredd uwch:**<br>Lluniwch restr o broblemau. Mewn parau, trafodwch y rhain a'u rhoi yn nhrefn eu pwysigrwydd. Cyfiawnhewch y drefn. | Humayun fighting Bahadur Shah of the Gujarat in 1535.<br><br>**Fideo(s):**<br>Humayan: The Second Mughal Emperor<br><br>Humayan and the Suri Empire<br><br>**Gwedudalen(nau):**<br>BBC Bitesize, How the Mughal Empire Began | |
| • Humayun yn colli ac ailsefydlu'r Ymerodraeth Mughal, gan gynnwys:<br>  • Brwydr Kannauj, 1540 ac alltudiaeth Humayun<br>  • arwyddocâd ail-gipio Delhi, 1555 ac atgyfnerthu grym Humayun. | Bygythiad Sher Shah Suri.<br><br>Arwyddocâd Brwydr Kannauj a'r rhesymau dros fethiant Humayun gan gynnwys strategaeth filwrol Sher Shah Suri a gwendidau Humayun.<br><br>Canlyniadau Brwydr Kannauj gan gynnwys | **Gweithgareddau:**<br>• Gwaith map – edrychwch ar fap o Frwydr Kannauj.<br>• Ysgrifennu creadigol - ysgrifennwch gyfrif o Frwydr Kannauj o safbwynt person cyntaf.<br>• Gwaith ffynhonnell – gwerthuswch ddarnau o'r Humayun-Nama. (Hunangofiant Tywysoges Mughal)<br>• Rhowch y rhesymau dros lwyddiant Hamayun yn adennill rheolaeth yn eu trefn. Cyfiawnhewch y rhesymeg. | **Delwedd(au):**<br>Portrait of Sher Shah Sur<br><br>Humayan's tomb in Delhi<br><br>**Gwefan(nau):**<br>Battle of Kannauj 1540<br><br>A Mughal Princess' autobiography | 2 awr |

© WJEC CBAC Ltd. 2025

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | esgyniad Ymerodraeth Sur yn ei lle.<br><br>Y rhesymau dros alltudiaeth Humayun a'r heriau a wynebodd yn ystod ei oes.<br><br>Cynghrair Humayun â'r Safavidiaid.<br><br>Pwysigrwydd cipio Delhi.<br><br>Y dulliau a ddefnyddiwyd gan Humayun i atgyfnerthu pŵer. | • Crynhowch deyrnasiad Humayun a'i bwysigrwydd i gynnal yr Ymerodraeth Mughal.<br><br>**Canlyniad:**<br>Bydd dysgwyr yn nodi'r agweddau allweddol ar reolaeth Humayun.<br><br>**Gweithgaredd uwch:**<br>Trafodaeth – A lwyddodd Humayun i ddychwelyd i rym oherwydd ei gryfder milwrol neu ei sgiliau diplomyddol?<br><br>**Canlyniad uwch:**<br>Bydd dysgwyr yn gwerthuso'r rheswm pam y dychwelodd Humayun o alltudiaeth ac effeithiolrwydd ei strategaethau. | | |

© WJEC CBAC Ltd. 2025

| 3.4.2 Akbar ac ehangu'r Ymerodraeth Mughal, 1556-1605 | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Dylai dysgwyr ddeall: | Gwybodaeth | Gweithgareddau a Chanlyniadau | Adnoddau | Amser a awgrymir (oriau) |
| • concwestau milwrol Akbar, gan gynnwys:<br>  • Rajasthan a Brwydr Chittorgarh, 1567<br>  • ehangu ymhellach rhwng 1570 a 1605. | Diben, digwyddiadau a phwysigrwydd concwest Rajasthan gan gynnwys tactegau milwrol a chanlyniadau.<br><br>Digwyddiadau a phwysigrwydd Brwydr Chittorgarh, 1567.<br><br>Y strategaethau milwrol a'r arloesedd technolegol a ddefnyddir gan Akbar.<br><br>Effaith ehangiad pellach ar yr Ymerodraeth Mughal. | **Gweithgareddau:**<br>• Gwaith ffynhonnell – dadansoddwch sawl delwedd: a dehongliad o Akbar.<br>• Trafodaeth – Pam yr oedd Akbar am ehangu'r ymerodraeth?<br>• Crynhowch a gwerthuswch arwyddocâd y strategaethau milwrol a ddefnyddiwyd gan Akbar.<br>• Cymharwch a chyferbynnwch reolaeth Akbar a Humayun.<br><br>**Canlyniad:**<br>Gall dysgwyr ddangos gwybodaeth a dealltwriaeth o bwysigrwydd brwydrau a digwyddiadau allweddol i ddatblygiad yr Ymerodraeth Mughal.<br><br>**Gweithgaredd uwch:**<br>Trafodaeth – Ai Brwydr Chittorgarh oedd y prif reswm dros ehangiad posibl Ymerodraeth Mughal?<br><br>**Canlyniad uwch:**<br>Bydd dysgwyr yn dadansoddi effaith Brwydr Chittorgarh. | **Llyfr(au):**<br>OCR GCSE History SHP: The Mughal Empire 1526 - 1707<br><br>A *Short History of the* Mughal Empire, M. Fisher, Bloomsbury Academic, 2018<br><br>**Fideo(s):**<br>Akbar's rise to power<br><br>The History of the Mughal Empire<br><br>**Delwedd(au):**<br>Akbar hunting<br><br>Map of Akbar's Empire<br><br>Illustration from the Akbarnama<br><br>**Erthygl(au):**<br>The Battle of Chittorgarh 1568: Rajput vs Mughal<br><br>Akbar Mawr - Wicipedia | 2 awr |

© WJEC CBAC Ltd. 2025

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | Akbar<br><br>Humayun<br><br>Akbar the Great, the ultimate renaissance ruler<br><br>**Gwedudalen(nau):**<br>Akbar | |
| • y system weinyddol a'r llysoedd, gan gynnwys:<br>• gwersylloedd Ymerodrol yn Agra, Fatehpur Sikri a Lahore<br>• rôl swyddogion y Mughal a dulliau cynhyrchu refeniw. | Trosolwg o Lys Mughal a sut y symudodd ei leoliad yn dibynnu ar leoliad yr ymerawdwr.<br><br>Strwythur gweinyddiaeth Mughal.<br><br>Strwythur hierarchaeth llys Mughal gan gynnwys y Wazi (prif weinidog), Diwan, Mir Bakshi, Qazi a Mansabldars.<br><br>Y system refeniw gan gynnwys subahs a zamindars. | **Gweithgareddau:**<br>• Gwaith map – edrychwch ar fap o India a thynnwch sylw at dri phrif wersyll ymerodrol Agra, Fatehpur Sikri a Lahore. Ystyriwch eu harwyddocâd daearyddol.<br>• Trafodaeth – beth oedd prif swyddogaethau llys brenhinol mewn ymerodraeth fawr?<br>• Ymchwiliad – Pam y symudodd y Mughaliaid eu llys rhwng lleoliadau. Beth oedd yn bwysig am y lleoliadau hyn?<br>• Gwaith ffynhonnell – gwerthuswch ddelwedd(au): a chyfrifon o'r llys brenhinol.<br>• Archwiliwch rôl swyddogion Mughal a dulliau cynhyrchu refeniw<br>• Chwarae rôl – cyflwynwch senario i'r dosbarth. Dylai'r grwpiau gyflwyno datrysiad i'r mater o safbwynt un rôl yng ngweinyddiaeth Mughal.<br>• Trafodaeth – Pa rôl oedd bwysicaf yng ngweinyddiaeth Mughal a pham? | **Llyfr(au):**<br>OCR GCSE History SHP: The Mughal Empire 1526 - 1707<br><br>A *Short History of the* Mughal Empire, M. Fisher, Bloomsbury Academic, 2018<br><br>**Gwefan(nau):**<br>Royal Travels of the Mughals<br><br>The Mughal capital under Akbar<br><br>Officers of the Mughal Empire<br><br>**Erthygl(au):**<br>Monumentality and Mobility in Mughal Capitals | 2 awr |

© WJEC CBAC Ltd. 2025

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | **Canlyniad:**<br>Gall dysgwyr werthuso'r newidiadau gweinyddol a wnaed a llunio casgliadau o ran eu heffeithiolrwydd.<br><br>**Gweithgaredd uwch:**<br>Sut wnaeth rôl swyddogion a'r system refeniw helpu'r Mughaliaid i gynnal rheolaeth o'r ymerodraeth?<br><br>**Canlyniad uwch:** Bydd dysgwyr yn cyfiawnhau effaith y newidiadau gweinyddol gyda rhesymeg ddatblygedig | Akbar and the land revenue system<br><br>**Delwedd(au):**<br>Fatehpur Sikri | |
| • credoau Akbar, gan gynnwys:<br>  • egwyddorion allweddol ei ffydd grefyddol<br>  • arwyddocâd goddefgarwch crefyddol yn yr ymerodraeth. | Y crefyddau amrywiol yn Ymerodraeth Mughal gan gynnwys Islam, Hindŵaeth, Cristnogaeth a Jainiaeth.<br><br>Maint goddefgarwch crefyddol o dan reolaeth Akbar a'r rhesymeg dros hynny.<br><br>Egwyddorion allweddol y Din-i-Ilahi a sut roedd hyn yn wahanol i bolisïau crefyddol blaenorol. | **Gweithgareddau:**<br>• Gweithgaredd – cyfatebwch agweddau allweddol pob crefydd i'r enw.<br>• Cyflwynwch egwyddorion allweddol y Din-i-Ilahi<br>• Ysgrifennu – lluniwch flog am Akbar ac effaith ei oddefgarwch crefyddol ar ymerodraeth Mughal.<br>• Dadansoddi ffynhonnell – trafodaeth ar ddarnau gan yr hanesydd llys Abul Fazl.<br>• Ymchwiliad – beth oedd safbwyntiau'r bobl (Hindŵiaid, Mwslimiaid ac ati) ar bolisi crefyddol Akbar?<br><br>**Canlyniad:** | **Fideo(s):**<br>Akbar: The Muslim Monarch who Championed Religious Harmony<br><br>**Delwedd(au):**<br>Akbar holding a religious assembly<br><br>Akbar and Abul Fazl<br><br>**Gwefan(nau):**<br>Quotes from Abu'l-Fazl ibn Mubarak citáty<br><br>Summary of Akbar's Religious Policy | 2 awr |

© WJEC CBAC Ltd. 2025

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | Diddymu'r dreth jizya ar bobl nad oeddent yn Fwslimiaid.<br><br>Priodas Akbar i dywysoges Hindŵaidd.<br>Penodi Hindŵiaid a phobl o fathau eraill o ffydd i swyddi uchel.<br><br>Sefydlu’r Ibadat Khana.<br><br>Effaith tymor byr a thymor hir goddefgarwch crefyddol ar yr ymerodraeth. | Bydd dysgwyr yn dangos gwybodaeth a dealltwriaeth o bwysigrwydd crefydd o fewn Ymerodraeth Mughal.<br><br>**Gweithgaredd uwch:**<br>Canlyniadau byr goddefgarwch crefyddol yn y tymor byr a'r tymor hir. Gwnewch gysylltiadau rhwng y canlyniadau a chyfiawnhewch y rhesymeg.<br><br>**Canlyniad uwch:**<br>Bydd dysgwyr yn gallu nodi canlyniadau byrdymor a tymor hir goddefgarwch crefyddol. | | |

© WJEC CBAC Ltd. 2025

| 3.4.3 Ehangu a sefydlogrwydd o dan Jahangir, 1605-1627 | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Dylai dysgwyr ddeall: | Gwybodaeth | Gweithgareddau a Chanlyniadau | Adnoddau | Amser a awgrymir (oriau) |
| • dylanwad ei brif gonsort, Nur Jahan, gan gynnwys:<br>  • cefndir Nur Jahan a'i hesgyniad i rym<br>  • ei rôl ym maes gweinyddu a gwneud penderfyniadau. | cefndir Nur Jahan a'i hesgyniad i rym fel prif gonsort.<br><br>Ei rôl fel un o'r menywod mwyaf pwerus yn hanes Mughal.<br><br>Ei rôl weinyddol gan gynnwys<br>• trin archddyfarniadau ymerodrol<br>• llwybrau masnach ymerodrol<br>• ei dylanwad gwleidyddol<br>• ei nawdd diwylliannol. | **Gweithgareddau:**<br>• Trafodaeth – pa heriau oedd menywod yn eu hwynebu yn India'r Mughal?<br>• Llinell amser – rhowch ddigwyddiadau arwyddocaol ym mywyd Nur Jahan mewn trefn gronolegol.<br>• Crynhowch rôl weinyddol Nur Jahan.<br>• Gwaith ffynhonnell – gwerthuswch nifer o ddelweddau ac ysgrifau am Nur Jahan, gan gynnwys ei rôl yn llys Mughal.<br>• Trafodaeth – a oedd Nur Jahan yn ddylanwad cadarnhaol ar lys Mughal?<br><br>**Canlyniad:**<br>Bydd dysgwyr yn ystyried rôl menywod yn Ymerodraeth Mughal ac yn gwerthuso dylanwad Nur Jahan.<br><br>**Gweithgaredd uwch:**<br>Cymharwch a chyferbynnwch rôl Nur Jahan â menywod Mughal eraill.<br><br>**Canlyniad uwch:**<br>Bydd dysgwyr yn llunio casgliadau ynghylch rôl Nur Jahan a'i chyfraniad i Ymerodraeth Mughal. | **Llyfr(au):**<br>OCR GCSE History SHP: The Mughal Empire 1526 - 1707<br><br>**Delwedd(au):**<br>Idealised portrait of Nur Jahan<br><br>Portrait of Nur Jahan holding an image of Jahangir<br><br>Jahangir<br><br>Coin with Nur Jahan name<br><br>**Fideo(s):**<br>Women in Mughal India<br><br>Power and Betrayal: Mughal Empress Nur Jahan's untold story<br><br>**Podlediad(au):**<br>Nur Jahan: The most powerful Mughal Woman | 2 awr |

© WJEC CBAC Ltd. 2025

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | **Erthygl(au):**<br>The Mughal Queen who became a feminist icon BBC News | |
| • economi y Mughal oedd yn datblygu a chymdeithas y Mughal, gan gynnwys:<br>• masnachu ag Ewrop ac atebion i broblemau masnachu<br>• y gymdeithas drefol a gwledig, y dosbarthiadau canol, menywod a masnachwyr. | Pwysigrwydd allforion Mughal fel tecstilau, sbeisys, llifynnau a cherrig gwerthfawr.<br><br>Datblygu masnach ag Ewrop, gan gynnwys Portiwgal, yr Iseldiroedd a Phrydain.<br><br>Y problemau masnachu a wynebwyd a'r datrysiadau, fel cydweithio â masnachwyr Ewropeaidd ac annog buddsoddiad.<br><br>Y gwahaniaethau rhwng cymdeithas drefol a gwledig.<br><br>Rôl masnachwyr ac urddau. | **Gweithgareddau:**<br>• Gwaith map – tynnwch sylw at brif lwybrau masnach a phorthladdoedd Mughal.<br>• Rhestrwch eitemau a fasnachwyd a nodwch eu gwerth i Ymerodraeth Mughal.<br>• Nodwch broblemau masnachu fel monopolïau a môr-ladrata. Awgrymwch ddatrysiadau posibl cyn cymharu'r rhain â datrysiadau Mughal.<br>• Efelychu masnach – masnachwyr Mughal ac Ewropeaidd.<br>• Cymharwch a chyferbynnwch gymdeithas drefol a gwledig.<br>• Crynhowch rôl masnachwyr ac urddau.<br><br>**Canlyniad:**<br>Bydd dysgwyr yn dangos eu bod yn deall y prif ddatblygiadau yng nghymdeithas Mughal a'r effaith a gafodd y rhain.<br><br>**Gweithgaredd uwch:**<br>Trafodwch – bywyd trefol neu fywyd gwledig.<br><br>**Canlyniad uwch:** | **Llyfr(au):**<br>OCR GCSE History SHP: The Mughal Empire 1526 - 1707<br><br>A *Short History of the* Mughal Empire, M. Fisher, Bloomsbury Academic, 2018<br><br>**Gwefan(nau):**<br>Vaia – The Mughal Economy<br><br>**Delwedd(au):**<br>Thomas Roe of the East India Company being received by Jahangir<br><br>Map Mughal trade routes<br><br>Trade Routes of the Mughal Empire<br><br>**Erthygl(au):**<br>The Mughal Social Structure | 2 awr |

© WJEC CBAC Ltd. 2025

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | Bydd dysgwyr yn gwerthuso ai bywyd trefol neu wledig oedd orau. | | |
| • noddi'r celfyddydau, gan gynnwys:<br>  • datblygu themâu artistig newydd fel symbolaeth, natur a phortreadau o ganlyniad i ddylanwadau Ewropeaidd<br>  • datblygiad miniaturau y Mughal. | Thema natur yng nghelf Mughal.<br><br>Pwysigrwydd a datblygiad miniaturau Mughal.<br><br>Symboliaeth mewn celf. | **Gweithgareddau:**<br>• Trafodaeth – beth yw'r celfyddydau a pham y maent yn bwysig?<br>• Crynhowch pam y datblygodd y celfyddydau o dan Jahangir<br>• Cymharwch a chyferbynnwch themâu artistig cyn ac yn ystod rheolaeth Jahangir.<br>• Gwaith ffynhonnell – dadansoddiad o nifer o finiaturau Mughal gan gynnwys y prif themâu, symbolaeth a dylanwadau.<br><br>**Canlyniad:**<br>Bydd dysgwyr yn dangos gwybodaeth a dealltwriaeth o bwysigrwydd y celfyddydau a'u dylanwadau.<br><br>**Gweithgaredd uwch:**<br>Ymchwiliwch i un o artistiaid Mughal, er enghraifft Ustad Mansur neu Abdul Hasan, ac aseswch ei gyfraniad i'r celfyddydau.<br><br>**Canlyniad uwch:**<br>Bydd dysgwyr yn meithrin gwybodaeth am artistiaid Mughal enwog. | **Llyfr(au):**<br>*Jahangir, an Intimate Portrait of a Great Mughal, Sharma & Parvati, Juggernaut Books, 2018*<br><br>**Erthygl(au):**<br>A Historical Study of Mughal Minature Paintings During Jahangir's reign<br><br>**Delwedd(au):**<br>Durbar Scene of Jahangir<br><br>Jahangir Preferring Sufi Shaikh to Kings<br><br>Darbar of Jahangir<br><br>**Fideo(s):**<br>Exploring colour in Mughal paintings<br><br>**Gwefan(nau):**<br>The Arts of the Mughal Empire | 2 awr |

© WJEC CBAC Ltd. 2025

| 3.4.4 Rheolaeth Shah Jahan 1627-1657 | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Dylai dysgwyr ddeall: | Gwybodaeth | Gweithgareddau a Chanlyniadau | Adnoddau | Amser a awgrymir (oriau) |
| • natur rheolaeth Shah Jahan, gan gynnwys:<br>  • moethusrwydd ei lys a'i ffordd ysblennydd o fyw<br>  • effaith methiant cnydau ar amodau byw pobl. | Arddangosiad Shah Jahan o gyfoeth fel y llys moethus.<br><br>Effaith cnydau yn methu a threthi uchel.<br><br>Y gwahaniaeth mewn ffordd o fyw rhwng yr ymerawdwr a'i bobl. | **Gweithgareddau:**<br>• Edrychwch ar ddelwedd o'r Taj Mahal. Ystyriwch beth y mae hyn yn ei ddweud wrthym am Shah Jahan.<br>• Lluniwch ffeil ffeithiau am fywyd Shah Jahan.<br>• Gwaith ffynhonnell – cymharwch ffordd o fyw foethus Shah Jahan â gweddill y boblogaeth.<br>• Crynhowch gnydau yn methu a'r effaith a gafodd hyn ar amodau byw.<br>• Trafodaeth – Sut y gall deiliaid Shah Jahan fod wedi teimlo am y gwahaniaethau mewn ffordd o fyw?<br><br>**Canlyniad:**<br>Bydd dysgwyr yn dangos gwybodaeth a dealltwriaeth o'r gwahaniaethau rhwng ffordd o fyw Shah Jahan a'i ddeiliaid.<br><br>**Gweithgaredd uwch:**<br>• Trafodwch beth sy'n gwneud rheolwr da.<br>• Casglwch dystiolaeth i gefnogi'r dehongliad bod Shan Jahan yn rheolwr da a/neu wael.<br><br>**Canlyniad uwch:** | **Llyfr(au):**<br>OCR GCSE History SHP: The Mughal Empire 1526 - 1707<br><br>Shah Jahan, the rise and fall of the Mughal Empire<br><br>**Fideo(s):**<br>Shah Jahan: The Ruler of the World<br><br>Shah Jahan<br><br>The Taj Mahal<br><br>**Delwedd(au):**<br>Shah Jahan | 2 awr |

© WJEC CBAC Ltd. 2025

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | Bydd dysgwyr yn gwerthuso a oedd Shah Jahan yn rheolwr da. | | |
| • llwyddiannau diwylliannol a phensaernïol, gan gynnwys:<br>• effaith goddefgarwch crefyddol a meithrin cytgord crefyddol<br>• y prif ddatblygiadau yng nghelfyddyd a phensaernïaeth y Mughal gan gynnwys y Taj Mahal a dinas Delhi. | Y cyfuniad o ddylanwadau Persiaidd, Indiaidd ac Islamaidd mewn pensaernïaeth.<br><br>Y rhesymeg dros adeiladu'r Taj Mahal, ei ddyluniad a'i bwysigrwydd.<br><br>Datblygu Dinas Delhi gan gynnwys y Gaer Goch.<br><br>Ffyrdd yr oedd pensaernïaeth yn hyrwyddo harmoni crefyddol. | **Gweithgareddau:**<br>• Trafodaeth – beth sy'n gwneud gwareiddiad gwych?<br>• Bydd dysgwyr yn edrych ar enghreifftiau o bensaernïaeth Mughal. Byddant yn ystyried ei bwrpas, ei ddylanwad artistig, ei bwysigrwydd a'i symbolaeth.<br>• Ymchwiliad – y Taj Mahal a'r Gaer Goch.<br>• Trafodaeth – sut yr aeth Shah Jahan ati i hyrwyddo harmoni crefyddol?<br><br>**Canlyniad:**<br>Bydd dysgwyr yn gwerthuso'r prif ddatblygiadau mewn pensaernïaeth ac yn ystyried effaith harmoni crefyddol.<br><br>**Gweithgaredd uwch:**<br>Nodwch symbolaeth mewn pensaernïaeth sy'n symboleiddio undod diwylliannol fel y defnydd o weledigaeth Islamaidd a chrefftau Indiaidd yn y Taj Mahal.<br><br>**Canlyniad uwch:** Bydd dysgwyr yn gwerthuso'r ffyrdd yr oedd pensaernïaeth yn hyrwyddo harmoni crefyddol. | **Llyfr(au):**<br>OCR GCSE History SHP: The Mughal Empire 1526 - 1707<br><br>Shah Jahan, the rise and fall of the Mughal Empire<br><br>**Fideo(s):**<br>The Story of the Taj Mahal for Kids<br><br>Grand Structures: The Red Fort Story<br><br>Who was Shah Jahan? | 2 awr |

© WJEC CBAC Ltd. 2025

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| • ehangiad a pharhad yr ymerodraeth, gan gynnwys:<br>• rhyfeloedd i ehangu'r ymerodraeth rhwng 1629 a 1653<br>• effaith y rhyfeloedd olyniaeth rhwng Dara Shikoh ac Aurangzeb ar yr ymerodraeth. | Dyhead Sash Jahan i ehangu'r ymerodraeth.<br><br>Ymgyrchoedd Kandahar yn erbyn y Safavidiaid.<br><br>Ehangu i'r Deccan a De India.<br><br>Ymdrechion i reoli Afghanistan a Chanolbarth Asia.<br><br>Y rhesymau dros ryfeloedd olyniaeth.<br><br>Y gwrthdaro rhwng Dara Shikoh, Aurangzeb, Murad Baksh a Shah Shuja.<br><br>Canlyniadau'r rhyfeloedd olyniaeth gan gynnwys ansefydlogrwydd ac ymfudo economaidd. | **Gweithgareddau:**<br>• Trafodaeth – pam oedd Shah Jahan am ehangu Ymerodraeth Mughal?<br>• Gwaith map – nodwch feysydd ehangiad allweddol yn ystod rheolaeth Shah Jahan.<br>• Llinell amser – rhowch ddigwyddiadau allweddol ym mywyd Shah Jahan mewn trefn gronolegol.<br>• Edrychwch ar goeden deulu Mughal. Gwerthuswch pam y gall fod problemau olyniaeth.<br>• Lluniwch ymgyrch ar gyfer un o'r olynwyr posibl gan amlinellu pam ei fod yn addas i reoli.<br>• Cyflwynwch ddadl – Pwy ddylai reoli ar ôl Shah Jahan? Dylai grwpiau gynrychioli Dara Shikoh neu Aurangzeb.<br><br>**Canlyniad:**<br>Bydd dysgwyr yn dangos eu bod yn deall Shah Jahan fel rheolwr ehangol yn ogystal â noddwr y celfyddydau a phensaernïaeth.<br><br>**Gweithgaredd uwch:**<br>Ysgrifennwch flog i amlinellu'r rhyfeloedd olyniaeth gan gynnwys eu heffaith tymor hir a thymor byr ar yr ymerodraeth.<br><br>**Canlyniad uwch:**<br>Bydd dysgwyr yn dangos dealltwriaeth ddatblygedig o effaith y rhyfeloedd | **Llyfr(au):**<br>A *Short History of the* Mughal Empire, M. Fisher, Bloomsbury Academic, 2018<br><br>Shah Jahan, the rise and fall of the Mughal Empire<br><br>**Fideo(s):**<br>Aurangzeb: The Mughal Emperor<br><br>The Childhood Trials! Aurangzeb and Dara Shikoh Part 1<br><br>The Childhood Trials! Aurangzeb and Dara Shikoh Part 2 | 3 awr |

© WJEC CBAC Ltd. 2025

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | olyniaeth ar sefydlogrwydd yr ymerodraeth. | | |

© WJEC CBAC Ltd. 2025

| 3.4.5 Aurangzeb a diwedd yr Ymerodraeth Mughal, 1657-1707 | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Dylai dysgwyr ddeall: | Gwybodaeth | Gweithgareddau a Chanlyniadau | Adnoddau | Amser a awgrymir (oriau) |
| • effaith duwioldeb crefyddol Aurangzeb, gan gynnwys:<br>• ei weithredoedd cynnar fel rheolwr, datrys gwrthdaro teuluol a'i ffordd o fyw<br>• gorfodaeth lwyr o gyfraith Sharia ac atal crefyddau eraill. | Credoau crefyddol Aurangzeb.<br><br>Ei esgyniad i rym a'r rhyfeloedd olyniaeth.<br><br>Ei ffordd o fyw bersonol lem.<br><br>Cymariaethau rhwng Aurangzeb a safbwyntiau crefyddol arweinwyr Mughal blaenorol.<br><br>Effaith Cyfraith Sharia. | **Gweithgareddau:**<br>• Crynhowch esgyniad Aurangzeb i rym a'i weithredoedd cynnar fel rheolwr.<br>• Ymchwiliad – Cyfraith Sharia. Beth oedd hyn? Beth oedd y prif nodweddion? Pam wnaeth Auangzeb ddilyn y polisi hwn? Sut yr effeithiwyd ar bobl nad oeddent yn Fwslimiaid?<br>• Gwerthuso ffynhonnell – beth mae cyfoeswyr a haneswyr yn ei ddweud am Aurangzeb?<br><br>**Canlyniad:**<br>Bydd dysgwyr yn dangos gwybodaeth a dealltwriaeth o safbwyntiau crefyddol Aurangzeb a'i ddulliau o reoli.<br><br>**Gweithgaredd uwch:**<br>Ym mha ffyrdd yr oedd rheolaeth Aurangzeb yn wahanol i arweinwyr Mughal eraill?<br><br>**Canlyniad uwch:**<br>Bydd dysgwyr yn ystyried effaith Cyfraith Sharia a sut yr arweiniodd hyn at Aurangzeb yn cael ei alw'n unben. | **Llyfr(au):**<br>*Aurangzeb: The life and legacy of India's most Controversial King*, Audrey Truschke, Gwasg Prifysgol Stanford, 2017<br><br>**Gwefan(nau):**<br>The Rule of Aurangzeb - BBC Bitesize<br><br>Role of Aurangzeb's Polices in the Fall of the Mughal Empire<br><br>BBC Bitesize Sacred Writings<br><br>**Fideo(s):**<br>Aurangzeb: The Mughal Emperor<br><br>**Erthygl(au):**<br>Aurangzeb and Islamic Rule in India | 2 awr |

© WJEC CBAC Ltd. 2025

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| • yr ymdrechion i gryfhau'r ymerodraeth gan gynnwys:<br>  • dulliau rheoli yn y gogledd a'r de drwy ddiwygio'r broses weinyddu, ymatebion i wrthryfeloedd ac ymgyrchoedd milwrol.<br>  • y bygythiadau oedd yn wynebu Aurangzeb gan wrthryfeloedd rhanbarthol a gwladwriaethau yn ymwahanu o 1668 ymlaen. | Polisïau gweinyddol Aurangzeb, gan gynnwys biwrocratiaeth a dulliau cynhyrchu refeniw.<br><br>Dulliau gwahanol o gadw mewn rheolaeth mewn rhanbarthau gogleddol a deheuol.<br><br>Bygythiadau rhanbarthol i'r ymerodraeth ac ymateb Aurangzeb.<br><br>Effaith gwladwriaethau yn ymwahanu.<br><br>Effeithiau tymor hir gwrthryfeloedd ar sefydlogrwydd yr Ymerodraeth Mughal. | **Gweithgareddau:**<br>• Llinell amser – bydd dysgwyr yn rhoi digwyddiadau allweddol o reolaeth Aurangzeb mewn trefn gronolegol.<br>• Gwrthryfeloedd – Maratha, Rajput, Swltanaethau Deccan a Sikh. Bydd grwpiau yn ymchwilio ac yn cyflwyno gwybodaeth.<br>• Trafodaeth – Beth oedd effaith gwladwriaethau yn ymwahanu?<br>• Dadl – Pa wladwriaeth yn ymwahanu a gyflwynodd y bygythiad mwyaf, Maratha, Rajput neu Sikh?<br>• Dadl – a oedd Aurangzeb yn arweinydd da / gwael?<br><br>**Canlyniad:**<br>Bydd dysgwyr yn gwerthuso ymdrechion Aurangzeb i atgyfnerthu'r ymerodraeth a llunio casgliadau o ran eu heffeithiolrwydd.<br><br>**Gweithgaredd uwch:**<br>Bydd dysgwyr yn gwerthuso pob un o bolisïau Aurangzeb i benderfynu a oeddent yn effeithiol yn y tymor hir a'r tymor byr o ran cynnal Ymerodraeth Mughal.<br><br>**Canlyniad uwch:**<br>Bydd dysgwyr yn llunio casgliadau cytbwys ar effeithiolrwydd Aurangzeb fel rheolwr. | **Llyfr(au):**<br>*A Short History of the Mughal Empire*, M. Fisher, Bloomsbury Academic, 2018<br><br>*Aurangzeb: The life and legacy of India's most Controversial King*, Audrey Truschke, Gwasg Prifysgol Stanford, 2017<br><br>**Gwefan(nau):**<br>Administrative Reforms of Aurangzeb<br><br>Timeline of Aurangzeb's life<br><br>BBC Bitesize – The Rule of Aurangzeb<br><br>**Fideo(s):**<br>The Mughal Empire and Historical Reputation<br><br>Aurangzeb the Mughal Emperor<br><br>**Erthygl(au):**<br>Revolts Against Aurangzeb | 3 awr |

© WJEC CBAC Ltd. 2025

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| • achosion dirywiad y Mughal, gan gynnwys:<br>• canlyniadau'r ymgyrchoedd yn erbyn y Maratha yn Llwyfandir Deccan o 1681 ymlaen<br>• cyflwr yr ymerodraeth pan fu farw Aurangzeb. | Effaith yr ymgyrchoedd yn erbyn y Maratha gan gynnwys problemau milwrol, draen economaidd ac ansefydlogrwydd gwleidyddol.<br><br>Y tactegau a ddefnyddiwyd gan y Maratha.<br><br>Marwolaeth Aurangzeb.<br><br>Cyflwr yr ymerodraeth Mughal yn 1707. | **Gweithgareddau:**<br>• Gwaith ffynhonnell – edrychwch ar sawl dehongliad ar gryfder yr Ymerodraeth Mughal ar farwolaeth Aurangzeb.<br>• Crynhowch yr ymgyrchoedd yn y Deccan.<br>• Dadl – Ai Aurangzeb oedd yn gyfrifol am ddirywiad yr Ymerodraeth Mughal?<br>• Cymharwch a chyferbynnwch lwyddiant Aurangzeb ag arweinwyr Mughal eraill.<br><br>**Canlyniad:**<br>Bydd dysgwyr yn gwerthuso'r rhesymau dros ddirywiad yr Ymerodraeth Mughal.<br><br>**Gweithgaredd uwch:**<br>Ysgrifennu – Pam y dirywiodd Ymerodraeth Mughal o 1707?<br><br>**Canlyniad uwch:**<br>Bydd dysgwyr yn ystyried achosion tymor hir a thymor byr dros ddirywiad Ymerodraeth Mughal. | **Llyfr(au):**<br>OCR GCSE History SHP: The Mughal Empire 1526 - 1707<br><br>*Aurangzeb: The life and legacy of India's most Controversial King*, Audrey Truschke, Gwasg Prifysgol Stanford, 2017<br><br>**Fideo(s):**<br>The Mughal Empire and Historical Reputation - Crash Course History<br><br>Aurangzeb and his Deccan Policy | 2 awr |

© WJEC CBAC Ltd. 2025

## Profiadau Dysgu

Dylid annog dysgwyr i ystyried y profiadau a'r sgiliau dysgu canlynol i ddatblygu eu dealltwriaeth, gwerthfawrogiad a'u hymwybyddiaeth o gynnwys y testun ymhellach. Mae'r wybodaeth yn y tabl isod yn darparu cyfleoedd i athrawon integreiddio'r profiadau dysgu yn rhan o'u proses o gyflwyno'r pwnc.

| Profiad Dysgu | Ymhelaethiad o'r Profiad Dysgu |
|---|---|
| cymryd rhan mewn ymweliadau addysgol wyneb yn wyneb neu'n ddigidol | Ymweliad digidol – Y Taj Mahal<br>https://artsandculture.google.com/story/taj-mahal-a-tour-from-the-top/zAUxtGbI2DyODQ?hl=en |
| meithrin empathi, goddefgarwch, cydymdeimlad a chwilfrydedd drwy astudio gwahanol gyd-destunau hanesyddol | Mae Uned 3.4 Astudiaeth o ffydd ddwyfol a pholisïau Akbar yn galluogi dysgwyr i fyfyrio ar agweddau eraill tuag at oddefgarwch, gan gynnwys hunanfyfyrio.<br><br>Mae Uned 3.5 Astudiaeth o Gyfraith Sharia Aurangzeb yn galluogi dysgwyr i fyfyrio ar y ffyrdd y gall crefydd effeithio ar genhedloedd. |
| gweithio ar y cyd | Drwy bob rhan o'r cynllun dysgu, mae cyfleoedd i gydweithio. |

© WJEC CBAC Ltd. 2025

## Cyfleoedd i ymgorffori elfennau o'r Cwricwlwm i Gymru
## Opsiwn 3.4 Modern Cynnar: Ymerodraeth Mughal, tua 1526-tua 1707

| **Llinynnau Cwricwlwm i Gymru** | |
|---|---|
| **Themâu sy'n trawstorri** | |
| Cyd-destunau Lleol, Cenedlaethol a Rhyngwladol | Mae **Uned 3** yn rhoi chwe phwnc hanesyddol gwahanol sy'n ymwneud â hanes y byd i ganolfannau. Mae'r pynciau dewisol yn rhoi cyfleoedd i wella dealltwriaeth dysgwyr o'r byd a phrofiadau amrywiol y bobloedd. Mae'r opsiynau yn golygu y gellir astudio rhanbarthau a ymyleiddiwyd o'r byd, hanes pobloedd a ddisodlwyd a theyrnasoedd a anghofiwyd, yn enwedig gwledydd deheuol y byd.<br><br>Mae Opsiwn 3.4 Ymerodraeth Mughal tua 1526 - tua 1707 yn galluogi canolfannau a dysgwyr i archwilio hanes modern cynnar yn Ne Asia. Bydd dysgwyr yn cael cyfle i edrych ar ehangiad ymerodraeth, gan gynnwys yr heriau a wynebwyd, polisïau newidiol a buddiannau. |
| Addysg Hawliau Dynol ac Amrywiaeth | Bydd cyfleoedd i ddysgwyr ystyried hawliau dinasyddion mewn ymerodraeth sy'n ehangu. Gall dysgwyr hefyd archwilio'r gwahaniaethau rhwng strwythurau dosbarth a rolau yn yr Ymerodraeth Mughal. Bydd dysgwyr yn meithrin dealltwriaeth o sut mae ymerodraeth yn delio ag amrywiaeth crefyddol ac effaith hyn ar y bobl. |
| Gyrfaoedd a Phrofiadau Cysylltiedig â Byd Gwaith | Mae'r Cwricwlwm i Gymru yn nodi y dylai dysgwyr archwilio gyrfaoedd yn y gorffennol, yn y presennol a'r dyfodol. Dylai dysgwyr archwilio gyrfaoedd y gorffennol a pham nad ydyn nhw’n bodoli mwyach, a myfyrio ar y ffactorau a all lywio a dylanwadu ar yrfaoedd yn y dyfodol.<br><br>Yn yr uned hon, gall dysgwyr feithrin dealltwriaeth o rolau'r gorffennol o fewn ymerodraeth gan gynnwys swyddogion a rôl menywod. |

© WJEC CBAC Ltd. 2025

| **Sgiliau trawsgwricwlaidd - Llythrennedd** | |
|---|---|
| Mae llawer o gyfleoedd i gynnwys llythrennedd mewn TGAU Hanes. Mae'r cyfleoedd hyn yn cynnwys dadansoddi deunydd ffynhonnell, cyfleoedd ysgrifennu estynedig, datblygu geirfa, dadlau a thrafod. Mae'r cyfleoedd hyn yn bwysig i ddysgwyr oherwydd y byddant yn meithrin sgiliau trawsgwricwlaidd a fydd yn sail i bedwar diben y Cwricwlwm i Gymru, yn ogystal â sgiliau cyfathrebu y gellir eu defnyddio ar draws pynciau gan eu paratoi ar gyfer addysg neu gyflogaeth yn y dyfodol.<br><br>Isod mae rhai enghreifftiau o sut mae'n bosibl ymgorffori llythrennedd yn yr addysgu a dysgu ar gyfer TGAU Hanes. | |
| | |
| Gwrando | Caiff dysgwyr y cyfle i asesu cywirdeb a dibynadwyedd deunydd ffynhonnell a rhannu safbwyntiau drwy drafodaeth a dulliau cwestiynu llafar wrth gael eu haddysgu am gynnwys y fanyleb. |
| | **Enghreifftiau** |
| | • Caiff dysgwyr eu hannog i ddadlau ac ymateb i safbwyntiau eraill.<br>• Caiff dysgwyr gyfleoedd i wrando ar bodlediadau a recordiadau i ddatblygu eu geirfa a meithrin eu sgiliau gwrando.<br>• Mae'r defnydd o hanes llafar a chyfweliadau yn meithrin sgiliau gwrando a'r gallu i ymateb i eraill yn briodol.<br>• Caiff dysgwyr y cyfle i rannu ac ymateb i gyflwyniadau gan eu cyfoedion. |
| | |
| Darllen | Caiff dysgwyr y cyfle i ddarllen deunydd ffynhonnell cyfoes ynghyd ag amrywiaeth o ddehongliadau hanesyddol, cyn gwerthuso'r ffynonellau yn feirniadol, dadansoddi eu cynnwys a chymharu a chyferbynnu ffynonellau sy'n canolbwyntio ar y dehongliad a roddir ganddynt o ddigwyddiadau. |
| | **Enghreifftiau** |
| | • Gall dysgwyr ddefnyddio amrywiaeth o dechnegau darllen fel sgimio a sganio neu ddarllen ar gyfer pwrpas.<br>• Darllen darnau o amrywiaeth eang o ffynonellau fel areithiau, erthyglau, darnau o ddyddiaduron, cofnodion hanesyddol a phapurau newydd.<br>• Cymharu a chyferbynnu cynnwys ffynonellau hanesyddol.<br>• Asesu dibynadwyedd a chywirdeb y testun i feithrin y sgìl o ddarllen yn feirniadol. |

© WJEC CBAC Ltd. 2025

| | |
|---|---|
| Siarad | Caiff dysgwyr y cyfle i feithrin eu dealltwriaeth o safbwyntiau a chynnwys drwy ddadlau, trafod, cyflwyniadau a gwaith grŵp. |
| | **Enghreifftiau** |
| | • Dadlau'r rheswm pwysicaf pam y digwyddodd digwyddiad.<br>• Gofyn cwestiynau er mwyn egluro a meithrin dealltwriaeth.<br>• Gall dysgwyr feithrin sgiliau siarad drwy waith grŵp a gwaith mewn parau. |
| | |
| Ysgrifennu | Caiff dysgwyr y cyfle i ddefnyddio amrywiaeth o eirfa pwnc benodol, iaith idiomatig a gallu cyflwyno eu gwaith yn ddigidol. Byddant yn cael cyfleoedd hefyd i fyfyrio ar strwythur a chynnwys eu gwaith hysgrifennu. |
| | **Enghreifftiau** |
| | • Dangos esiamplau o atebion drwy weithgareddau athro, cyfoedion a hunanasesu.<br>• Caiff dysgwyr y cyfle i ddefnyddio amrywiaeth eang o arddulliau ysgrifennu fel ffurfiol, anffurfiol a pherson cyntaf. |

© WJEC CBAC Ltd. 2025

<table>
<tr><th colspan="2">Sgiliau trawsgwricwlaidd - Rhifedd</th></tr>
<tr><td colspan="2">Mae llawer o gyfleoedd i gynnwys Rhifedd mewn TGAU Hanes, er enghraifft dadansoddi newid yn y boblogaeth, dehongli ystadegau mewn ffynonellau sylfaenol ac eilaidd, dadansoddi graffiau a llinellau amser a mynd i'r afael â chysyniadau fel ymwybyddiaeth gronolegol. Mae'r cyfleoedd hyn yn bwysig i ddysgwyr am eu bod yn eu galluogi i roi digwyddiadau mewn cyd-destun a mesur newid. Gall dysgwyr lunio casgliadau seiliedig ar dystiolaeth sy'n seiliedig ar ystadegau a data rhifiadol.<br><br>Isod mae rhai enghreifftiau o sut mae'n bosibl ymgorffori rhifedd yn yr addysgu a'r dysgu ar gyfer TGAU Hanes.</td></tr>
<tr><td colspan="2"></td></tr>
<tr><td rowspan="3">Mae dysgu am geometreg yn ein helpu ni i ddeall siâp, gofod a safle, ac mae dysgu am fesur yn ein helpu i feintioli yn y byd go iawn</td><td>Caiff dysgwyr gyfleoedd i ddadansoddi mapiau i ddeall twf a datblygiad ymerodraethau neu gynrychioliad daearyddol o ryfeloedd.</td></tr>
<tr><td>Enghreifftiau</td></tr>
<tr><td>• Gall dysgwyr ddadansoddi mapiau, strwythurau ac arteffactau.<br>• Yna, gall dysgwyr ddadansoddi prosesau rhannu tir a chynllunio trefol.<br>• Mae cyfleoedd i ddadansoddi strategaethau ac amddiffynfeydd milwrol.</td></tr>
<tr><td colspan="2"></td></tr>
<tr><td rowspan="3">Mae dysgu bod ystadegau yn cynrychioli data a bod tebygolrwydd yn modelu siawns yn ein helpu ni i ddod i gasgliadau ac i wneud penderfyniadau gwybodus</td><td>Caiff dysgwyr gyfleoedd i archwilio neu ddadansoddi data a graffiau drwy ddadansoddi ffynonellau.</td></tr>
<tr><td>Enghreifftiau</td></tr>
<tr><td>• Gall dysgwyr ddadansoddi data i lunio casgliadau ar ystadegau fel twf poblogaeth, costau ac ehangu tir.<br>• Gellir dehongli deunydd eilaidd fel graffiau a siartiau.<br>• Mae cyfleoedd i ddysgwyr greu eu cynrychioliadau rhifiadol eu hunain o'r data a gasglwyd.</td></tr>
</table>

© WJEC CBAC Ltd. 2025

| **Sgiliau trawsgwricwlaidd - Cymhwysedd Digidol** | |
|---|---|
| Mae llawer o gyfleoedd i gynnwys cymhwysedd digidol mewn TGAU Hanes. Gall dysgwyr ddefnyddio technoleg ddigidol i gael gafael ar amrywiaeth eang o ffynonellau hanesyddol ac i ymchwilio i destun hanesyddol. Caiff dysgwyr y cyfle hefyd i feithrin eu sgiliau digidol wrth baratoi a chwblhau eu hasesiadau di-arholiad. Bydd y cyfleoedd hyn yn galluogi dysgwyr i feithrin sgiliau trawsgwricwlaidd sy'n ategu pedwar diben y cwricwlwm, ynghyd â galluogi mynediad pellach i wybodaeth hanesyddol wrth feithrin sgiliau meddwl creadigol ac ymwybyddiaeth foesegol presennol ac ar gyfer y dyfodol.<br><br>Isod mae rhai enghreifftiau o sut mae'n bosibl ymgorffori cymhwysedd digidol yn yr addysgu a dysgu ar gyfer TGAU Hanes. | |
| | |
| Dinasyddiaeth | Bydd dysgwyr yn meithrin dealltwriaeth o bwysigrwydd priodoliadau, gan gynnwys defnyddio adnoddau mewn fformatau digidol fel e-lyfrau ac erthyglau ar-lein. Bydd yn ofynnol i ddysgwyr fynd i'r afael â phriodoliadau wrth ddadansoddi eitemau ar gyfer eu hymchwiliad hanesyddol a meddwl yn feirniadol am awduron tystiolaeth ddigidol. |
| | **Enghraifft** |
| | Dylid sicrhau bod dysgwyr yn ymwybodol o hawlfraint a llên-ladrad wrth edrych ar dystiolaeth hanesyddol ac wrth ddatblygu a chyflwyno eu dadleuon eu hunain mewn perthynas â thestun. |
| | |
| Rhyngweithio a Chydweithio | Gall dysgwyr gydweithio (yn ddigidol) ar dasgau wrth baratoi ar gyfer yr arholiad. Gallai hyn gynnwys asesiadau cyfoedion, ymateb i adborth yr athro neu greu gwaith. |
| | **Enghraifft** |
| | Mewn grwpiau, gallai dysgwyr ymchwilio i destun a'i gyflwyno er mwyn cyflwyno maes astudio. |
| | |
| Cynhyrchu | Caiff dysgwyr gyfleoedd i ymchwilio i amrywiaeth o ffynonellau yn ddigidol. |
| | **Enghraifft** |
| | • Defnyddio archifau cenedlaethol a rhyngwladol i ddod o hyd i ddeunyddiau sy'n cysylltu â'r maes astudio. |

© WJEC CBAC Ltd. 2025

| **Sgiliau Cyfannol** | |
|---|---|
| Creadigrwydd ac Arloesi | Mae llawer o gyfleoedd i gynnwys creadigrwydd ac arloesi mewn TGAU Hanes. Mae'r cyfleoedd hyn yn bwysig i ddysgwyr er mwyn iddynt ymddiddori mwy yn y gwersi a mwynhau dysgu drwy dasgau sy'n eu hysgogi. Caiff dealltwriaeth ddyfnach ei meithrin drwy annog dysgwyr i gymryd rôl weithredol yn eu dysgu. |
| | **Enghreifftiau** |
| | • Bydd dysgwyr yn dangos creadigrwydd wrth ddatblygu ymatebion, mynegi eu barn am faterion hanesyddol perthnasol a gwerthuso ffynonellau a thystiolaeth yn feirniadol mewn asesiadau.<br>• Caiff dysgwyr gyfleoedd i fod yn greadigol ac i arloesi wrth gyflwyno gwybodaeth a chanfyddiadau. |
| | |
| Meddwl yn Feirniadol a Datrys Problemau | Mae llawer o gyfleoedd i gynnwys meddwl yn feirniadol a datrys problemau mewn TGAU Hanes. Mae'r cyfleoedd hyn yn bwysig i ddysgwyr am eu bod yn datblygu'r gallu i feddwl yn ddadansoddol, ac i gasglu tystiolaeth, myfyrio arni a'i gwerthuso'n feirniadol er mwyn llunio barn wybodus ar amrywiaeth o destunau. Gellir cymhwyso'r sgìl hwn at senarios bywyd go iawn. |
| | **Enghreifftiau** |
| | • Caiff dysgwyr gyfleoedd i ofyn cwestiynau ystyrlon ar ddeunydd ffynhonnell a dehongliadau hanesyddol, ac i'w gwerthuso fel rhan o'u proses o ddatblygu dadleuon beirniadol perthnasol.<br>• Bydd dysgwyr yn datblygu eu gallu i weld materion o sawl safbwynt.<br>• Drwy astudio parhad a newid dros amser, bydd dysgwyr yn meithrin eu sgiliau datrys problemau y gallant eu cymhwyso yn eu bywydau yn y dyfodol.<br>• Bydd dysgwyr yn gwerthuso ffynonellau a dehongliadau hanesyddol o ran dibynadwyedd, rhagfarn a phwrpas.<br>• Mae meddwl yn feirniadol a datrys problemau yn annog dysgu annibynnol ac yn hyrwyddo'r gallu i ddod i benderfyniadau rhesymol a gwybodus mewn agweddau eraill ar fywyd fel addysg bellach neu waith. |

© WJEC CBAC Ltd. 2025

| | |
|---|---|
| Cynllunio a Threfnu | Mae llawer o gyfleoedd i gynnwys cynllunio a threfnu mewn TGAU Hanes. Mae'r cyfleoedd hyn yn bwysig i ddysgwyr am fod y sgiliau cyfannol hyn yn galluogi dysgwyr i ymgysylltu â'r gorffennol, dadansoddi gwybodaeth a chyfathrebu eu canfyddiadau, sydd wedyn yn galluogi dysgwyr i wella eu dealltwriaeth academaidd a'u paratoi i gymhwyso gwybodaeth hanesyddol mewn cyd-destunau modern.<br><br>Isod mae rhai enghreifftiau o sut mae'n bosibl ymgorffori Cynllunio a Threfnu yn yr addysgu a'r dysgu ar gyfer TGAU Hanes. |
| | **Enghraifft** |
| | • Caiff dysgwyr gyfleoedd i gynllunio ac yna gwblhau eu hymateb i gwestiwn ymholi. |
| | |
| Effeithiolrwydd Personol | Mae llawer o gyfleoedd i gynnwys effeithiolrwydd personol mewn TGAU Hanes. Mae'r cyfleoedd hyn yn bwysig i ddysgwyr am eu bod yn datblygu gwydnwch a'r gallu i weithio'n effeithiol. Mae hyn yn helpu i feithrin sgiliau rheoli amser dysgwyr a'r gallu i flaenoriaethu tasgau, gan wella gallu dysgwyr i ddod yn unigolion hyblyg. |
| | **Enghreifftiau** |
| | • Bydd dysgu am destunau a allai fod yn sensitif yn galluogi dysgwyr i ddatblygu eu deallusrwydd emosiynol a'u hymwybyddiaeth hanesyddol.<br>• Bydd cyfleoedd i gael asesiadau gan gyfoedion, hunanasesiadau ac asesiadau gan athrawon yn annog dysgwyr i ddatblygu strategaethau effeithiol i wella eu gwaith.<br>• Cydweithio ar dasg ymchwil neu gyflwyniad.<br>• Datblygu gwydnwch drwy adolygu ac ailfodelu atebion.<br>• Mae cyfleoedd i ddysgwyr fynegi eu barn am faterion hanesyddol perthnasol, deunyddiau ffynhonnell cyfoes a dehongliadau hanesyddol. |

© WJEC CBAC Ltd. 2025

## Rhestr Termau ar gyfer Opsiwn 3.4 Ymerodraeth Mughal tua 1526 - tua 1707

| Term | Diffiniad |
|---|---|
| Concwest | Cael rheolaeth dros bobl o wlad arall. |
| Deccan | Ardal yn Ne India. |
| Alltudiaeth | Cael eich gwahardd o'ch gwlad enedigol. |
| Gwersylloedd Ymerodrol | Gwersylloedd milwrol dros dro. |
| Maratha | Grŵp o ryfelwyr a sefydlwyd yn Llwyfandir Deccan. |
| Yr Ymerodraeth Mughal | Ymerodraeth yn isgyfandir India rhwng y 16eg a'r 19eg ganrif. |
| Miniaturau Mughal | Paentiadau. |
| Nawdd | Anogaeth neu gyllid mewn meysydd fel y celfyddydau. |
| Duwioldeb | Ymrwymiad dwfn i grefydd. |
| Cyfraith Sharia | Cyfreithiau yn seiliedig ar ddysgeidiaethau Islamaidd. |
| Symbolaeth | Y defnydd o symbolau i gynrychioli syniadau neu gysyniadau. |
| Taj Mahal | Adeilad a adeiladwyd gan Shah Jahan er cof am ei wraig. |

© WJEC CBAC Ltd. 2025